Drwy e-bost i bob ysgol a choleg yng Nghymru

Mehefin 2018

Annwyl gydweithiwr

Arholiadau'r haf 2018

Wrth i dymor yr arholiadau ddirwyn i ben, ysgrifennaf atoch ynglŷn â chymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch. Gan fod mwy o gymwysterau newydd yn cael eu dyfarnu am y tro cyntaf yng Nghymru yr haf hwn, ein blaenoriaeth yw sicrhau nad yw dysgwyr dan fantais nac anfantais annheg ac y caiff y safon berthnasol ei chynnal.

Sicrhau safonau a thegwch ar gyfer haf 2018

Caiff ffiniau graddau eu gosod gan uwch arholwyr sy'n ystyried gwybodaeth ystadegol ac enghreifftiau o waith dysgwyr er mwyn cario'r safonau o'r hen gymwysterau ymlaen. Ceir dull cadarn o sicrhau bod canlyniadau'n parhau'n sefydlog pan gaiff cymwysterau newydd eu cyflwyno, a elwir yn 'ganlyniadau cymaradwy'. Mae'r dull hwn yn diogelu myfyrwyr er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais annheg fel y rhai cyntaf i sefyll arholiadau newydd. Gwnaethom ddefnyddio canlyniadau cymaradwy yn llwyddiannus yr haf diwethaf wrth ddyfarnu'r cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd a chânt eu defnyddio ledled y DU. Gallwch ddysgu mwy amdanynt yma[1].

Mae'r dull canlyniadau cymaradwy yn gymwys ar gyfer y garfan gyfan sy'n astudio cymhwyster, a bydd yn sicrhau y caiff amrywioldeb yn y canlyniadau ar lefel genedlaethol ei gyfyngu. Fodd bynnag, pan fydd cymhwyster yn newid, gall fod mwy o amrywioldeb o flwyddyn i flwyddyn nag arfer yng nghanlyniadau ysgolion a

[1] http://qualificationswales.org/media/2644/ffocws-ar-ganlyniadau-cymaradwy.pdf

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

cholegau unigol am eu bod, o bosibl, wedi defnyddio dulliau gwahanol o gyflwyno'r cymhwyster newydd.

Dyfarnu cymwysterau TGAU am y tro cyntaf

Caiff 15 o gymwysterau TGAU eu dyfarnu am y tro cyntaf yr haf hwn[2]. Yn yr un modd â'r pynciau hynny a ddyfarnwyd am y tro cyntaf yn 2017, bydd CBAC yn cario safonau ymlaen o'r hen gymwysterau. Yn gyffredinol, lle mae carfan 2018 yn debyg i garfan 2017, rydym yn disgwyl canlyniadau tebyg ar gyfer graddau A, C ac F ar y cyfan.

Cyfres TGAU Gwyddoniaeth

Mae'r gyfres wyddoniaeth newydd yn cynnwys chwe chymhwyster: gwyddoniaeth ar wahân (TGAU Bioleg, Cemeg a Ffiseg), TGAU Gwyddoniaeth (Dwyradd), TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dwyradd) a TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Unigol). Mae'r cymwysterau dwyradd yn disodli'r cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth a TGAU Gwyddoniaeth Ychwanegol blaenorol ac mae ganddynt raddfa graddau 15 pwynt. Rydym wedi creu cerdyn post i egluro'r cymwysterau newydd hyn, a gallwch ddod o hyd iddo ar ein gwefan yma[3].

Roedd nifer y cofrestriadau ar gyfer y cymwysterau dwyradd newydd yn uwch na nifer y cofrestriadau cyfunol ar gyfer gwyddoniaeth a gwyddoniaeth ychwanegol mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r cofrestriadau ar gyfer gwyddoniaeth ar wahân wedi cynyddu hefyd. Mae'n debygol mai'r rheswm dros y cynnydd hwn yw'r newid i fesurau perfformiad ysgolion lle nad yw cymwysterau TGAU amgen yn cyfri mwyach.

Gan fod y garfan o fyfyrwyr sy'n astudio cymwysterau TGAU gwyddoniaeth wedi newid yn sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol, rydym yn disgwyl i ganlyniadau'r haf hwn fod yn wahanol. Felly mae'n bosibl y byddwch yn gweld mwy o amrywioldeb yn eich canlyniadau o gymharu â blynyddoedd blaenorol; yn enwedig lle rydych wedi gweld newidiadau yn yr amrywiaeth o gymwysterau rydych yn eu haddysgu, neu yn nifer y myfyrwyr sy'n eu hastudio. Rydym yn awgrymu y dylech fod yn ofalus iawn pan fyddwch yn cymharu canlyniadau cymwysterau gwyddoniaeth etifeddol â'r cymwysterau dwyradd newydd.

Dyfarnu cymwysterau UG a Safon Uwch am y tro cyntaf

Caiff 10 o bynciau Safon Uwch[4] a chwe phwnc UG[5] eu dyfarnu am y tro cyntaf yr haf hwn. Yn yr un modd â'r pynciau hynny a ddyfarnwyd am y tro cyntaf yn 2017, bydd

---

[2]Gwyddoniaeth Gymhwysol Gradd Unigol, Gwyddoniaeth Gymhwysol Dwyradd, Celf a Dylunio, Bioleg, Cemeg, Drama, Bwyd a Maeth, Ffrangeg, Daearyddiaeth, Almaeneg, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Ffiseg, Sbaeneg, Gwyddoniaeth Dwyradd

[3] http://qualificationswales.org/media/3393/cymwysterau-tgau-gwyddoniaeth-newydd-i-gymru.pdf

[4] Drama, Ffrangeg, Daearyddiaeth, Almaeneg, Mathemateg, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Astudiaethau Crefyddol, Sbaeneg a Chymraeg Ail Iaith

[5] Dylunio a Thechnoleg, Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, y Gyfraith, Mathemateg Bellach, Mathemateg, Astudiaethau'r Cyfryngau

CBAC yn cario safonau ymlaen o'r hen gymwysterau. Yn gyffredinol, lle mae'r garfan genedlaethol yn 2018 yn debyg i garfan 2017, rydym yn disgwyl canlyniadau tebyg ar gyfer graddau A ac E ar y cyfan.

Caiff cymwysterau Safon Uwch newydd eu dyfarnu am y tro cyntaf ddwy flynedd ar ôl dyddiad cychwyn y cwrs fel arfer. Mae Safon Uwch Mathemateg yn eithriad a chaiff ei dyfarnu flwyddyn yn unig ar ôl iddi gael ei haddysgu am y tro cyntaf. Mae hyn yn rhoi'r opsiwn i fyfyrwyr astudio Safon Uwch Mathemateg ar ddiwedd Blwyddyn 12 cyn astudio Safon Uwch Mathemateg Bellach ym Mlwyddyn 13. Bydd hyn yn golygu na fydd llawer o gofrestriadau ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch Mathemateg newydd yr haf hwn, sy'n cynnwys myfyrwyr 17 oed yn bennaf.

Cofrestriadau

Gwnaethom gyhoeddi nifer y cofrestriadau dros dro ar gyfer arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yr haf hwn ar 24 Mai 2018. Mae'r data hyn yn rhoi awgrym cynnar i ni o newidiadau mewn patrymau cofrestru, sy'n ddefnyddiol wrth ddehongli canlyniadau'r haf.

Yr haf hwn, mae rhywfaint o newidiadau sylweddol i'w gweld i'r patrymau cofrestru yng Nghymru. Yn arbennig, mae nifer y cofrestriadau Blwyddyn 10 ar gyfer TGAU Saesneg Iaith, TGAU Cymraeg Iaith a'r ddwy TGAU Mathemateg wedi lleihau'n sylweddol ynghyd â chynnydd mewn cofrestriadau Blwyddyn 10 ar gyfer TGAU Saesneg Llenyddiaeth. Y prif reswm dros y lleihad mewn cofrestriadau yn bennaf yw'r newid i fesurau perfformiad ysgolion o haf 2019, sydd ond yn caniatáu i ganlyniadau cyntaf myfyrwyr gyfrif.

Bydd y broses ddyfarnu yn canolbwyntio ar berfformiad myfyrwyr Blwyddyn 11, felly ni fydd y newidiadau hyn i gofrestriadau Blwyddyn 10 yn effeithio ar y broses o gynnal safonau. Ond mae'n debygol y bydd y newidiadau i'r garfan sy'n sefyll yr arholiadau hyn yn effeithio ar ganlyniadau'r haf yn gyffredinol. Felly, bydd angen cymryd gofal wrth ddehongli canlyniadau'r haf a'u cymharu â blynyddoedd blaenorol.

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf

Dros y pythefnos nesaf, byddwn yn cyhoeddi cyfres o erthyglau'n egluro'r cymwysterau newydd a'r broses arholi. Rydym yn cynnig amrywiaeth o gardiau post[6] defnyddiol i'w lawrlwytho o'n gwefan, sy'n cwmpasu prif nodweddion y cymwysterau TGAU newydd a'r Fagloriaeth Gymraeg. Rydym hefyd yn anfon diweddariadau rheolaidd i ysgolion a cholegau ar gymwysterau TGAU, Safon Uwch a chymwysterau

[6] http://qualificationswales.org/cymraeg/gwybodaeth-i-randdeiliaid/schools-and-colleges/

eraill a reoleiddir gennym drwy ein cylchlythyr 'Y Llechen'. Gallwch gofrestru i gael hwn ar ein gwefan[7].

Dweud eich dweud!

Fel rhan o'n gwaith o fonitro cyfres arholiadau'r haf, rydym yn cynnal holiadur ar-lein i roi cyfle i fyfyrwyr, athrawon a darlithwyr roi adborth ar arholiadau. Mae'r holiadur[8] ar agor tan 6 Gorffennaf.

Rhyddhau canlyniadau

Hoffem atgoffa ysgolion a cholegau fod canlyniadau yn gyfrinachol tan y diwrnodau canlyniadau swyddogol (16 Awst ar gyfer TAG a 23 Awst ar gyfer TGAU) ac na ddylid eu rhannu ag unrhyw unigolyn na sefydliad arall y tu allan i'ch ysgol neu goleg.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i chi yn y dyfodol, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr

[7] http://qualificationswales.org/cymraeg/cymerwch-ran/cadw-mewn-cysylltiad/cylchlythyrau/
[8] http://qualificationswales.org/cymraeg/cymerwch-ran/ymgynghoriadau-ac-arolygon/arolwg-dweud-eich-dweud-2018/